



# Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 9 Ionawr 2018 am 6.30yh  
yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 9 January 2018 at 6.30pm  
at the 36 Pendre Conference Room, Cardigan.

**Presennol/Present—Y Cyngorwyr/Councillors** Richard Jones (**yn y gadair/in the chair**),  
John Adams-Lewis, Clive Davies, Graham Evans, Marilyn Farmer, Debra Griffiths, Wyn Jones,  
Siân Maehrlein, Catrin Miles, Steffan Morgan, Yvonne O'Neill, Trystan Phillips.

## 1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

**Croesawodd y Maer, y Cyng. Richard Jones bawb i'r cyfarfod a dymunodd flwyddyn newydd dda i'r holl aelodau. Cyfeiriodd at lwyddiant ysgubol Jamie Lewis ym mhencampwriaeth dartiau'r byd pan gyrhaeddodd y rownd gyn-derfynol gyda pherfformiadau arbennig. Cyflwynwyd cydymdeimlad yr aelodau i Mr John Morris, Bachan Deche'r cyngor, yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer, Barbara; cytunwyd anfon cyfarchion y cyngor at Mr Morris.**

The Mayor, Cllr Richard Jones, welcomed everyone to the meeting and wished all members a happy new year. Congratulations were extended to Jamie Lewis on his resounding success in the World Darts championships recently when Jamie reached the semi-finals with excellent performances. Condolences were extended to the council's Handyperson, Mr John Morris, on the passing of his sister, Barbara; it was agreed to forward the member's condolences to Mr Morris.

## 2. Ymddiheuriadau / Apologies: Y Cyng. / Cllrs Shan Williams

## 3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pheronol gan Gynghorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

## 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 5 Rhagfyr.

Confirmation of Minutes of 5 December Council Meeting.

**Tud. 1306, eitem 1: Mae angen newid y swm o bunnoedd i ddoleri: \$1,500 a \$1,000.**

**Tud. 1312, eitem 13(a)(ii): Dylid cyfeirio at y celfi fel "byrddau dehongli" yn hytrach nag "arwyddion".**

Page 1306, item 1: The currency to be changed from sterling to dollars: \$1,500 and \$1,000.

Page 1312, item 13(a)(i): The Welsh translation to be corrected (see above).

**Gyda'r cywiriadau uchod, cynigiwyd gan y Cyng. Yvonne O'Neill ac eiliwyd gan y Cyng. Debra Griffiths bod cofnodion cyfarfod 5 Rhagfyr yn gywir.**

With the above amendments, Cllr Yvonne O'Neill proposed that the 5 December council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Debra Griffiths.

## 5. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

**Tud. 1308, eitem 9(b)(iii): Wedi gwneud ymholiadau gyda'r cyngor sir, dywedodd y Cyng. Adams-Lewis nad oedd tystiolaeth bod problemau yn dilyn gwelliannau i'r ffordd yn Teras Wiliam wedi eu derbyn.**

**Tud. 1309, eitem 10[186]: Trethi annomestig: Mae Mr Phil Evans (perchennog) wedi talu'r trethi erbyn hyn.**

**Tud. 1311, eitem 10[200]: Yn dilyn cyfarfod gyda Mrs Monima O'Connor a Mr Jim Marsden, awgrymwyd yn yr is-bwyllgor i alw cyfarfod mewn pwyllgor ar 10 Ionawr am 6.00yh i drafod y materion ynglŷn â safle'r ganolfan gofal iechyd arfaethedig gyda Mr Peter Skitt.**

**Cwestiynau i'w hanfon ymlaen llaw at Mr Skitt.**

Page 1308, item 9(c)(iii): Cllr Adams-Lewis stated that following a discussion with county council officials, no record of complaints regarding the Williams Terrace road improvements had been received

Page 1309, item 10[186]: Non-domestic Rates: Mr Phil Evans (landlord) has paid the rates.

Page 1311, item 10[200]: Following the meeting with Mrs Monima O'Connor and Mr Jim Marsden, it was recommended at the sub-committee to organise a meeting in committee with Mr Peter Skitt on 10 January at 6.00pm to discuss the location of the proposed integrated health care centre at the Bath House site. Pre-arranged questions to be forwarded to Mr Skitt.

## 6. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

## 7. Cynllunio / Planning.

## 8. (a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhif y Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
27/12/17	Siemens: Prydles y llungopiwr / Lease of photocopier	A17	D/D	£150.00 (25.00)
1/1/18	Tai Aberteifi Ltd.: Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Tachwedd / November). Rhent yr Ystafell Gynhadledd/Rent of Conference Room (5 & 19 Rhagfyr / December) Band Lydan (Ionawr) / Broadband (January)	A9 A9 A20	D/D 4494 4494	£250.00 (0.00) £50.00 (0.00) £20.00 (0.00)
12/12/17	Llinos Jones: Cyfieithu ar y pryd / Simultaneous translation (5/12/17)	A18	4495	£63.30 (0.00)
31/12/17	L. W. Jones: Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Rhagfyr / December)	A3	4496	£756.36 (0.00)
13/11/17	J. D. R. Thomas: System sain / Sound system (Remembrance Sunday)	A23	4497	£90.00 (15.00)
2/11/17	J. J. Williams & Sons: Symud y potiau blodau / Relocating flower pots (Ysgol Gynradd Aberteifi)	C1	4498	£78.00 (13.00)
9/1/18	HMRC: PAYE £567.30, Class 1 NIC £109.89 (Hydref, Tachwedd, Rhagfyr – Oct., Nov., Dec. 2017)	A16	4499	£567.30 (IT) + £109.89 (NIC) = £677.19 (0.00)
9/1/18	Midshire: Ôl-daliad cyfrif (cyfanswm £831.63 + VAT) 6 monthly instalments of £166.33 (incl. VAT) back payment (4th instalment)	A17	4500	£166.33 (27.72)
4/12/17	Penrallt Ceibwr Garden Centre Ltd.: Coeden Nadolig / Christmas tree (6 metres)	B1	4501	£275.00 (45.83)
19/12/17	Telemat: Cynnal e-bost ac ailgofrestru enw parth / Maintenance of e-mail and reregistering name	A20	4502	£56.70 (9.45)
19/12/17	BT: Ffôn / Telephone	A20	4503	£85.16 (14.19)
3/1/18	Ms Lisa Hellier: Anfoneb rhannol / Part payment for design and first draft of Aberteifi/Cardigan map	B9	4504	£750.00 (0.00)
29/12/17	JAM Furniture: Gwaith ar y byrddau dehongli / Work on the interpretation boards	B9	4505	£4,605.00 (0.00)
1/1/18	Caffi Sgwâr Finch Square Café: Stampiau / Stamps	A8	4506	£87.36 (0.00)
31/12/17	Bachan Deche / Handyperson: (Rhagfyr / December)	A19	4507	£272.09 (18.70)
30/11/17	M. & E. Pearce: Deunydd goleuadau Nadolig / Material for Christmas lights	B1	4508	£323.85 (53.98) £188.22 (31.37)

30/11/17	Tobruk Engineering: <i>Deunydd goleuadau Nadolig /</i> Material for Christmas lights	B1	4509	£644.16 (107.36)
29/11/17	J. Harries Electrical: SIN340004 <i>Deunydd goleuadau Nadolig /</i> Material for Christmas lights	B1	4510	£160.44 (26.74) £83.28 (13.88) £6.54 (1.09) £14.33 (2.39) £272.09 (45.35) £392.70 (65.45) £15.36 (2.56)
30/11/17	CCF: Cable ties (nylon and plastic)	B1	4511	£12.20 (1.95)
9/1/18	Y Cyng. / Cllr Richard Jones: <i>Deunydd i'r goleuadau Nadolig /</i> Material for Christmas lights	B1	4512	£613.20 (0.00)

**Cynigiodd y Cyng. John Adams-Lewis bod yr holl biliau uchod yn cael eu talu yn dilyn archwiliad gan y clerc a'r Cynghorwyr Richard Jones a Steffan Morgan o holl anfonebau'r goleuadau Nadolig; eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans.**

Cllr John Adams-Lewis proposed that following scrutiny of the Christmas lights invoices, the above bills be paid; this was seconded by Cllr Graham Evans.

***Derbyniadau/Receipts:***

9/11/17	<i>Llog y Banc /</i> Bank interest	£2.37
9/12/17	<i>Llog y Banc /</i> Bank interest	£2.62
9/1/18	Ms Llinos Jones: <i>Hurio'r offer cyfieithu/Hire of translating equipment</i>	£65.00

**(b) Adroddiad Ariannol hyd at 31 Rhagfyr / Financial Report to 31 December 2017**

**Cynigiodd y Cyng. Graham Evans bod y cyngor yn cymeradwyo'r adroddiad ariannol; eiliwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis.**

Cllr Graham Evans proposed that the council approves the financial report; this was seconded by Cllr John Adams-Lewis.

**9. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.**

**(a) Y Cyng. John Adams-Lewis:**

- (i) **Dywedodd y Cyng. Adams-Lewis bod cynllun gan y cyngor sir i gasglu eitemau trydanol am ddim hyd ddiwedd y mis: rhif cyswllt 01545 572572. Nid yw'r gwasanaeth ar gael i fasnachwyr a busnesau.**
- (ii) **Mae'r cyngor sir yn cyflwyno cynllun "Cymhennu Ceredigion" i glirio'r strydoedd o annibendod diangen sy'n creu rhwystrau a gwneud i drefi a phentrefi edrych yn anniben. Gall yr annibendod hwn gynnwys arwyddion megis fframiau 'A', parcio difeddwl ac anghyfreithlon a gwastraff diangen yn cael ei adfael ar ymyl y ffordd. Mae mwy o wybodaeth ar safle we'r cyngor sir.**

**(b) Y Cyng. Catrin Miles:**

- (i) **Mae'r cyngor sir wedi datblygu parcio i'r anabl mewn tri safle ger Capel y Tabernacl ym Mhendre. Awgrymwyd y dylid datblygu cyrbiau isel mewn mannau parcio i'r anabl hefyd.**
- (ii) **Mae trefniadau ar y gweill i ddatblygu gwybodaeth i'r anabl ar app Aberteifi er mwyn hwyluso siopa a mynediad i dafarndai, ayyb.**
- (iii) **Mae angen cymeradwyo ymdrechion cymuned Aberporth i greu cynllun gwaredu plastig o draethau'r pentref.**
- (iv) **Da yw cyhoeddi bod trefniadau i gywiro'r mur ar gei Tywysog Siarl ar y gweill.**
- (v) **Mae trefniadau gan y cyngor sir i uwchraddio cysgodfannau bysys y sir. Apelir i bobl beidio â rhoi posteri arnynt i'w hanharddu.**
- (vi) **Mae trefniant gan gwmni bysys i barhau â'r gwasanaeth rhad ac am ddim ar y penwythnos tan fis Mai. Dywedodd y Cyng. Wyn Jones bod perchennog cwmni bysys Brodyr Richards yn meddwl bod gwasanaethu yn lleol ar y Sul yn anymarferol.**
- (vii) **Apeliodd y Cyng. Miles i aelodau fynychu'r cyfarfod gyda swyddogion y cyngor sir yn Ysgol Bro Teifi ar 16 Ionawr am 6.30yh.**

(a) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) Cllr Adams-Lewis stated that the county council has introduced a free service that electrical items can be collected for recycling during the month of January. This service applies to householders only. Contact details: 01545 572572.
- (ii) The county council is promoting a clutter-free scheme for Ceredigion. Unnecessary street clutter can cause obstruction which makes access more difficult as well as making villages and towns look untidy. This clutter can include such as 'A' boards, inconsiderate and illegal parking and waste presented for collection in the wrong way on the wrong day. More information is available on the county council website.

(b) Cllr Catrin Miles:

- (i) The county council has developed three parking bays for the disabled adjacent to Tabernacl chapel in Pendre. It was suggested that dropped kerbs be implemented alongside all disabled parking bays.
- (ii) Plans are afoot to develop information for the disabled on the Cardigan app to ease the disabled person's shopping and leisure experiences.
- (iii) The efforts of the Aberporth community to develop a plastic-free scheme to rid the beaches of the village of this unsightly littering was commended by Cllr Miles.
- (iv) Cllr Miles was pleased to announce that the Prince Charles quayside wall was now due for repair.
- (v) The county council has plans to upgrade bus shelters throughout the county. An appeal is made for the public to refrain from fly-posting on these structures.
- (vi) The public bus service will continue to provide a free bus service at the weekend until May. Cllr Wyn Jones stated that one of the proprietors of Richard Bros. coaches confirmed that providing a Sunday service was not feasible.
- (vii) Cllr Miles appealed to members to attend the meeting with county council officers which is to be held at Ysgol Bro Teifi on 16 January at 6.30pm.

## 10. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
201	CSC / CCC (Louise Zerk): <i>Cau'r ffordd / road closure: Stryd y Castell / Castle Street: gwaith draenio newydd / new drainage works, 15/1/18-19/1/18</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 5/12/17.
202	CSC / CCC (Stephen Johnson): <i>Trefniadau'r Praesept / Precept Arrangements 2018-19</i>	<i>I'w drafod yng nghyfarfod y Gyllideb.</i> To be discussed at the budget meeting, 17/1/18.
203	CSC / CCC (Ffion Lewis-Dale): <i>Cais am fanylion aelod a gyfetholwyd.</i> Request for details regarding co-opted member.	<i>Mae'r clerc wedi anfon yr wybodaeth ymlaen ar 2/1/18.</i> The clerk has forwarded the details on 2/1/18.
204	CSC / CCC (Alun G. Davies): <i>Ymateb negyddol i osod biniau sbwriel ym Maeshenffordd a Gerddi Napier.</i> Negative response to the town council's request to place litter bins at Maeshenffordd and Napier Gardens.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
205	CSC / CCC (Eirian Jones): <i>Ymateb i gais symud y meinciau / Response to the removal of North Park benches.</i>	<i>Cytunodd y Cyng. Adams-Lewis gysylltu â'r adran berthnasol.</i> Cllr Adams-Lewis agreed to contact the appropriate department.
206	Ms Truscilla Lewis, Caffi Carn Alw: <i>Llythyr yn cwyno am ddyfodol y farchnad.</i> Letter of complaint regarding communication with Menter Aberteifi of market future.	<i>Cytunwyd i gynrychiolwyr y cyngor ar Menter Aberteifi godi'r mater mewn cyfarfod.</i> It was agreed that the council's representatives on Menter Aberteifi would raise the issue at a board meeting.
207	Mr J. E. Jones, Maes-a-Môr, Gwbert Road: <i>Problemau parcio ar Ffordd Gwbert.</i> Parking issue on the Gwbert Road.	<i>Cytunwyd anfon y llythyr ymlaen at Tom Delph-Janiurek, Rheolwr/Beiriannydd Rheoli Trafnidiaeth y cyngor sir.</i> It was agreed to forward a copy of the letter to Tom Delph-Janiurek, Senior Engineer Traffic Management at the county council.
208	Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 2018 (Brycheiniog a Maesyfed): <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial aid.	<i>I'w drafod yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Mawrth.</i> To be discussed at the Grants Sub-committee in March.

209	Cyfarchion y Nadolig / Christmas greetings: Brioude, Laufen, Coleg Ceredigion, Cyngor Sir Ceredigion	Nodwyd. Noted.
-----	--	-------------------

**Alun G. Lewis:** Street Scene Service Manager  
**Eirian Jones:** *Is-Bennaeth Cynnal a Chadw Adeiladau* / Assistant Chief Building Maintenance Officer  
**Ffion Lewis-Dale:** *Gwasanaethau Etholiadol* / Electoral Services  
**Louise Zerk:** *Adain Cau Ffyrdd* / Road Closures  
**Stephen Johnson:** *Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol* / Head of Financial Service

## 11. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

### Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 12 Rhagfyr.

Confirmation of 12 December Sub-committee Minutes.

### Cynigiwyd gan y Cyng. Catrin Miles ac eiliwyd gan y Cyng. Debra Griffiths bod cofnodion 12 Rhagfyr yn gywir.

Cllr Catrin Miles proposed that the 12 December minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Debra Griffiths.

### Materion yn codi Matters arising

**Tud. 1313 (*Canolfan Gofal Integredig Aberteifi*):** Datganodd y Cyng. Adams-Lewis ei anfonlonrwydd bod cyfarfod gyda Mr Peter Skitt, cyfarwyddwr Ceredigion o Fwrdd Iechyd Hywel Dda, wedi ei awgrymu i'w gynnal mewn pwyllgor. Ni chafwyd eilydd i'w gynnis i wrthdroi'r awgrym ac i gynnal cyfarfod agored. Felly, cynhelir y cyfarfod ar 10 Ionawr mewn pwyllgor.

Page 1313 (*Cardigan Integrated Care Centre*): Cllr Adams-Lewis strongly objected to the recommendation that the meeting with Mr Peter Skitt, the Health Board's county director for Ceredigion, be held in committee. No seconder was forthcoming to his proposal to hold the meeting in public. The meeting on 10 January will, accordingly, be held in committee.

**Tud. 1313 (*Cae Chwarae Maesglas*):** Cytunwyd â'r awgrym i anfon llythyr at Brif Weithredwr Tai Ceredigion Cyf. gydag awgrymiadau'r cyngor i gymryd prydles o'r safle.

Page 1313 (*Maesglas Play Area*): It was agreed that a letter be forwarded to the Chief Executive of Tai Ceredigion Cyf. outlining the council's condition to accept the lease arrangements for the location.

**Tud. 1314 (*Prydlesau'r Clwb Bowls a'r Clwb Rygbi*):** Cytunwyd gyda'r awgrym fel a nodwyd.

Page 1314 (*King George 5<sup>th</sup> Playing Field leases for Cardigan Bowls Club and Cardigan RFC*): It was agreed to forward the proposals to Mr John Dyer as noted.

**Tud. 1314 (*Cae Chwarae Pentop*):** Cytunwyd bod £3,000 o arian cyfatebol yn cael ei osod er mwyn sicrhau grantiau i'r cae chwarae.

Page 1314 (*Pentop Play Area*): It was agreed to set aside £3,000 for the purchase, with the support of grant aid, of equipment for the play area.

**Tud. 1314 (*Digwyddiad baw cŵn*):** Dywedodd y Cyng. Adams-Lewis bod swyddog o'r cyngor sir wedi bod yn tynnu lluniau o'r safle.

Page 1314 (*Dog fouling*): Cllr Adams-Lewis stated that an officer from the county council had taken photographs of the location.

**Castell Aberteifi:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Clive Davies bod y parêd llusernau wedi bod yn llwyddiant ysgubol eleni eto ac y byddai'r Castell yn cymryd rhagor o gyfrifoldeb am drefniadau hwyrach y noson yn 2018. Mae cynlluniau ar y gweill i gyflwyno casgliad o eitemau Aur Clogau yn y dyfodol agos a hefyd i gynllunio baneri herodrol i'w gosod ar hyd y strydoedd.

*Cardigan Castle:* A report was given by Cllr Clive Davies who was pleased that the lantern parade had been a huge success this year again; the Castle would take a more active role in 2018. Plans are afoot to present a collection of Clogau Gold items specifically for the castle and to introduce heraldic banners throughout the streets of Cardigan.

## 12. Datganiad chwarterol gan y Maer am ddiogelwch cadwyni'r cyngor.

Quarterly statement by Mayor regarding safeguarding chains of office.

### Sicrhodd y Maer bod y cadwyni'n ddiogel.

The Mayor confirmed that the chains were in safe custody.

**13. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.**

Any Other Business at the discretion of the Mayor.

(a) **Y Cyng. / Cllr Steffan Morgan**

(i) **Cynllun i leihau gwastraff plastig.**

**Bydd y Cyng. Morgan yn barod i drafod gyda grwpiau cyfagos er mwyn cyflwyno cynllun i reoli pecynnau plastig sydd yn anharddu ac yn sarhad i'r ardal a'r byd yn gyffredinol. Byddai paratoi holiadur i siopau lleol er mwyn gwybodaeth gan eu hannog i ddefnyddio papur yn hytrach na phlastig i bacio nwyddau yn syniad ymarferol. Mae oddeutu cant o siopau o fewn ffiniau'r dref.**

Scheme to reduce plastic waste.

Cllr Morgan will liaise with other local groups in an attempt to introduce plastic-free packaging in the area and the planet generally. Local shops could be approached and encouraged to use paper packaging as a preference. It was suggested that a questionnaire could be prepared for all shopkeepers (approx. 100) in the town.

(ii) **Problemau parcio yn Heol yr Orsaf.**

**Cytunwyd mai problem i'w datrys gan yr heddlu yw a gellir ei drafod yng nghyfarfod PACT.**

Parking problems at Station Road.

It was agreed that the problem is a police matter and could be raised at the next PACT meeting.

(b) **Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis**

(i) **Cydnabod campau Jamie Lewis ym myd y dartiau.**

**Roedd papur dyddiol Cymru y "Western Mail" yn gyndyn iawn gyda'i adroddiadau am gampau ardderchog Jamie. Gofynnwyd i'r clerc ysgrifennu at y papur i gwyno am hyn. Cytunwyd dylunio tysytysgrif i'w chyflwyno i Jamie yn y dyfodol agos.**

**Atgoffwyd aelodau bod angen gosod plac o gampau Jonathan Jones gerllaw cei'r Tywysog Siarl yn y dyfodol agos.**

Acknowledging the achievements of Jamie Lewis in the darts world.

The coverage of the success of Jamie's excellent feat in the "Western Mail" was totally inadequate. The clerk was requested to complain to Wales' leading newspaper of their omission. It was agreed to design a certificate to present to Jamie at a future meeting.

Members were reminded that the plaque noting the achievement of Jonathan Jones' success needs to be organised in the near future.

(c) **Y Cyng. / Cllr Elaine Evans**

(i) **Mater parcio ger Brethyn Cartref, Stryd Fawr.**

**Cytunodd y Cyng. Miles gysylltu â'r cyngor sir am gyflwr aneglur yr arwydd tu allan i'r siop.**

Parking issue alongside Brethyn Cartref, High Street.

Cllr Miles will report the poor quality of the signage in the High Street to the county council.

(d) **Y Cyng. / Cllr Clive Davies**

(i) **Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2020:**

**Disgwylir am ymateb oddi wrth Mr Elfed Roberts, Prif Weithredwr yr Eisteddfod Genedlaethol o leoliad Eisteddfod 2020 sydd i'w chynnal yng Ngheredigion. Cytunodd y Cyng. Davies wneud ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad.**

A response is awaited from Mr Elfed Roberts, organiser of the National Eisteddfod of Wales, regarding identifying the location of the 2020 Eisteddfod which is to be held in Ceredigion. Cllr Davies agreed to contact Mr Roberts.

***Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.12yh***

*There being no further business to discuss, the Deputy Mayor closed the meeting at 8.12pm.*

Arwyddwyd/Signed ..... (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date .....